………………………………………………………………………..

Os ewch chi i un o ddinasoedd pwysig y byd, mae'n siŵr y dewch chi ar draws o leiaf un oriel gelf enwog. Mae rhai pobl wrth eu bodd yn ymweld â nhw ac maen nhw'n treulio oriau yno, yn rhyfeddu at ddawn artistiaid enwog y byd. Mae Oriel Tate yn Llundain ac yn Lerpwl, er enghraifft, yn cynnwys gweithiau enwog iawn. Mae oriel The Lowry ym Manceinion yn dangos gweithiau'r arlunydd enwog L.S. Lowry - yn ogystal ag arddangosfeydd eraill. Mae miloedd o bobl yn mynd i'r Louvre, ym Mharis, bob blwyddyn i weld y paentiad enwog, y Mona Lisa, gan Leonardo da Vinci a miloedd o ddarnau enwog eraill. Os ewch chi i'r Ufizzi yn Fflorens fe welwch chi rai o weithiau cynnar Leonardo da Vinci - a miloedd o weithiau celf eraill, ac os ewch chi i amgueddfa'r Hermitage yn St Petersburg byddwch chi'n siŵr o ryfeddu at gasgliad anhygoel o weithiau'r meistri ar hyd yr oesoedd yn ogystal â gwaith celf o Rwsia.

Mae'r orielau hyn yn dangos gwaith celf ar ei orau, ond mae oriel yn Boston yn creu arddangosfeydd sy'n hollol wahanol. Mae'n arddangos lluniau gwael, gan artistiaid does neb wedi clywed amdanyn nhw. Beth yw enw'r oriel? The Museum of Bad Art.

Dyn o'r enw Scott Wilson ddechreuodd y casgliad yn 1994. Ei waith e oedd prynu a gwerthu hen bethau ac, un diwrnod, gwelodd lun wedi ei osod ar y palmant gyda'r sbwriel yn barod i'w gasglu gan y lori sbwriel. Aeth â'r llun adref er mwyn tynnu'r ffrâm oddi arno ond penderfynodd ei gadw. Ond pan ddangosodd e'r llun i'w ffrind, Jerry Reilly, roedd e wrth ei fodd ac roedd e eisiau cadw'r ffrâm a'r llun. Ar ôl ychydig, daeth Wilson o hyd i lun gwael arall a phenderfynodd e a Jerry Reilly ddechrau casglu o ddifri.

I ddechrau, cafodd y lluniau eu harddangos yng nghartref Reilly a'i wraig. Yna, trefnodd y ddau yma noson arbennig i bobl gael dod i'w gweld. Y noson hon oedd "Agoriad yr Oriel ar gyfer Celf Wael".

Yn dilyn hyn, roedd arddangosfeydd mewn lleoliadau gwahanol. Mewn un arddangosfa, cafodd y lluniau eu hongian o goed yn Cape Cod a chafodd cerddoriaeth wael ei chwarae hefyd er mwyn creu awyrgylch!

Mae pethau wedi newid erbyn heddiw. Mae'r lluniau'n cael eu harddangos ar dri safle ac mae llawer o ddiddordeb ynddyn nhw. Yn ogystal, mae modd gweld y lluniau a darllen disgrifiadau ar y we. Cliciwch ar http://museumofbadart.org. Mae'r llyfr *Museum of Bad Art: Masterworks* yn dangos y lluniau ac yn rhoi gwybodaeth amdanyn nhw hefyd ac mae cylchlythyr rheolaidd *MOBA News* yn rhoi'r newyddion diweddaraf.

Pa fath o luniau sydd yn y casgliad? Fel mae'r enw'n awgrymu, lluniau gwael ydyn nhw, ond lluniau sydd wedi eu creu gan artistiaid oedd o ddifri wrth iddyn nhw eu peintio. Efallai bod rhywbeth wedi mynd o'i le wrth i'r artistiaid eu creu. Mae un peth yn sicr - nid jôcs ydyn nhw! Beth sy'n bwysig yw - rhaid iddyn nhw beidio â bod yn ddiflas - dydyn nhw ddim yn *boring*!

Mae'r casgliad yn cynnwys portreadau, tirluniau a phynciau diddorol eraill, ond un o'r portreadau mwyaf trawiadol yw *Sunday on the Pot with George*. Does neb yn gwybod pwy yw'r artist ond mae wedi creu llun yn steil pwyntilyddion, sef defnyddio dotiau bach i greu'r llun.



*Gyda chaniatâd y Museum of Bad Art, www.museumofbadart.org*

Sylwch ar y cymeriad yn y llun. Mae'n hollol wahanol i'r bobl sy'n cael eu portreadu mewn lluniau clasurol. Sylwch ar ei ddillad. Beth mae'n wisgo? Nid dillad milwrol, na dillad crand fel rydych chi'n eu gweld mewn lluniau clasurol ond … pants … neu efallai cewyn neu gadach … neu toga o bosib? Pwy a ŵyr? Ond yn sicr, mae'r llun yn ddiddorol - ac yn wahanol! Ydy e'n llun gwael? Cewch chi benderfynu!